UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

www.ucac.cymru

# Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Iona A. Davies

Eich sefydliad (os yn berthnasol): UCAC

E-bost/rhif ffôn: iona@ucac.cymru

Eich cyfeiriad:Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 29 Medi i:

Y Tîm Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd

neu gellir eu cwblhau'n electronig a'u hanfon at:

E-bost: DiwygioPCET@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestrau o undebau? A oes undebau eraill yn gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y credwch y gellid eu hychwanegu at y rhestrau?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| **Ymddengys fod y prif undebau wedi eu rhestru.** |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r corff cynrychioli dysgwyr a enwir? A oes cyrff cynrychioli dysgwyr eraill sy'n gweithredu yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru y credwch y gellid eu hychwanegu at y rhestr i gynrychioli dysgwyr?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – Sut allai'r Comisiwn glywed a chynrychioli barn a lleisiau'r dysgwyr orau?

| |
|---|
| **Mae'n bwysig bod pob dysgwr yn teimlo fod clust i'w farn a'i lais. Y perygl mewn sefyllfa o'r fath hon yw fod llais y 'lleiafrif llafar' yn uwch na'r 'mwyafrif distaw'. Mae'n bwysig bod pawb yn cael cyfle i fynegi barn a dylid manteisio ar bob fforwm posibl i glywed lleisiau'r dysgwyr. Dylid annog dysgwyr i fynegi eu barn mewn cymaint o wahanol ffyrdd â phosibl – yn llafar, yn ysgrifenedig, wyneb yn wyneb, ar y cyfryngau cymdeithasol, yn rhithiol ayb. Mae'r Comisiwn yn cynrychioli ystod helaeth iawn o ddysgwyr a myfyrwyr, felly mae'n anodd sicrhau bod sylw'n cael ei roi i farn pawb ac i'r amrywiaeth eang o safbwyntiau a fydd yn cael eu cynrychioli. Yn Rhagair y Gweinidog i'r ddogfen ymgynghori nodir 'Mae'r gweithlu addysg drydyddol yn eang..' Gellid dweud hefyd fod yr un peth yn wir am y dysgwyr/myfyrwyr o fewn addysg drydyddol. Mae'r ffaith fod cymaint o amrywiaeth o fewn 'addysg drydyddol' yn mynd i'w gwneud yn heriol.** |

**Cwestiwn 4** – **Cyfle cyfartal**

Bydd y Comisiwn yn dod yn gorff rhestredig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gyfrifol am ddileu cyfle anghyfartal, gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Bydd yn cymryd pob cam sy'n angenrheidiol i sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi.

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai cynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr yn ei chael ar gyfle cyfartal.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith ar gyfle cyfartal? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

| |
|---|
| **Mae hi'n anodd iawn sicrhau cyfle cyfartal, gan fod y gweithlu a'r dysgwyr yn cynrychioli cymaint o amrywiaeth barn.**<br>**Bydd cael unigolion cyswllt yn aelodau o'r Bwrdd yn gymorth i fynegi barn rhai carfannau, ond dylid sicrhau hefyd fod sylw'n cael ei roi i garfannau nad ydynt wedi eu cynrychioli'n uniongyrchol.**<br>**Gan fod y gweithlu'n cynrychioli ystod mor eang o sefyllfaoedd, a fyddai'n well pe bai mwy na dau aelod cyswllt yn cynrychioli'r gweithlu trydyddol. Rhaid bod yr aelodau cyswllt yn adlewyrchu'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.** |

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai cynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg a dysgwyr yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Mae'n hollbwysig bod aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd ag addysg Gymraeg a'r heriau sy'n wynebu'r sector. O gofio mai un o ddyletswyddau strategol y Comisiwn yw hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n rhaid, felly, cael aelodau cyswllt sy'n mynd i allu cyflawni'r ddyletswydd honno. Noder paragraff 3.58 yn y Bil 'Mae darpariaeth yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor perthnasol i'r Comisiwn er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau'n ymwneud â hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg'. Credwn fod angen aelod cyswllt cyfrwng Cymraeg o'r sector Addysg Bellach ac aelod cyswllt i gynrychioli ysgolion cyfrwng Cymraeg. O gofio hefyd am weledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae cael pobl sy'n mynd i allu hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac sy'n ymwybodol o'r sector addysg Gymraeg yn allweddol. Nid yw'r penodiadau cychwynnol yn ymddangos fel pe baent yn adlewyrchu'r gofynion a nodir uchod. Croesewir y rôl fydd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond mae'n rhaid sicrhau na fydd modd iddynt gael eu tanseilio gan gyrff eraill. Dylid sicrhau bod addysg 'cyfrwng Cymraeg' yn golygu nid yn unig iaith y gwersi, ond hefyd yn golygu mai dyna yw iaith gweithgareddau a gweinyddiaeth y sefydliad. Er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid diogelu a datblygu sefydliadau lle mae disgyblion yn cael eu trwytho a'u trochi yn y Gymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle mae canran uchel y dysgwyr yn dod o gartrefi di-Gymraeg a lle mae'r cyfleoedd i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn brin.**<br>**Rhaid bod yn ymwybodol mai o fewn sefydliadau byd addysg y mae nifer helaeth o ddysgwyr yn cael y rhan fwyaf o gyfleoedd i ymarfer eu sgiliau yn y Gymraeg, felly mae'n bwysig bod y Gymraeg yn gadarn a'r cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg yn niferus yn y sefydliadau hynny.** |

**Cwestiwn 6** - Eglurwch hefyd sut y gallai'r polisi ar gynnwys aelodau cyswllt ar y Bwrdd i gynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol ehangach a dysgwyr gael eu llunio neu eu newid yn eich barn chi fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu'r effaith gadarnhaol ar

gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, dylid pennu bod isafswm ar y Bwrdd sy'n cynrychioli'r sector cyfrwng Cymraeg, neu o leiaf yn gyfarwydd gyda gofynion y sector hwnnw ac yn deall yr heriau a'r sialensau. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin ar yr un lefel â'r Saesneg, bydd hi'n allweddol hefyd fod trafodaethau'r Bwrdd yn gallu cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.** |

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u hystyried yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i wneud hynny:

| |
|---|
| |

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych ymateb yn ddienw, ticiwch yma: ☐